

# COFIO GLYNDŴR

*Huw Pryce*

## *Abstract*

This is the text of the Cymrodorion Lecture delivered at the National Eisteddfod in Meifod in 2015, the 600th anniversary of the presumed death of Owain Glyndŵr. The article focuses on how Glyndŵr was remembered in the late nineteenth and early twentieth century. Starting with a survey of early historians who showed an interest in the rebel leader, including David Powel in the sixteenth century and Thomas Pennant in the eighteenth century, the article shows how the figure of Owain Glyndŵr was first fashioned as a national hero and then co-opted as part of the war effort during the First World War. In 1915, the year of the 500th anniversary, ambitious plans for memorial celebrations were disrupted by the war, but a pamphlet describing Glyndŵr's achievements was published and distributed to all schools in Wales, utilizing a rhetoric of medieval chivalry that resonated with Welsh and British patriotism during the war. Events such as the founding of a national university for Wales were seen as realizations of Glyndŵr's political visions for an independent Wales. By the year 2000, the anniversary of the start of the Glyndŵr rebellion in 1400, the establishment of the National Assembly for Wales and the return of the Pennal letter from Paris to the National Library of Wales were seen as fitting tributes to the memory of Owain Glyndŵr.

Pan ofynnwyd imi draethu ar Owain Glyndŵr rhaid cyfaddef imi betruso: sut y gallwn i ddweud dim byd newydd am destun a oedd wedi derbyn llawer iawn o sylw gan nifer mwy cymwys na fi ar ddechrau'r ganrif hon, fel rhan o'r gweithgareddau lu a gynhaliwyd i nodi chwechanmlwyddiant dechrau'r gwrthryfel yn 1400? Fel y bydd nifer ohonoch yn cofio, rwy'n siwr, ymhlith y gweithgareddau hynny oedd darlith ysgubol gan y diweddar Rees Davies, yr awdurdod modern pennaf ar y tywysog a'i oes, yma ym Meifod yn ystod Eisteddfod Genedlaethol 2003.<sup>1</sup> Ar ôl pendroni ychydig, penderfynais mai'r unig ffordd allan o'm cyfyngder oedd troi

1 Rhidian Griffiths, 'Yr Athro Syr Rees Davies (1938–2005): Teyrnged Bersonol', *Y Traethodydd*, 161 (2006), 9–14 (t. 14). Am ddarlithiau a draddodwyd yn 2000 i nodi chwechanmlwyddiant dechrau rhyfel Glyndŵr, gw. *Taliesin*, 110 (Gaeaf 2000), a Nia Watkin Powell, 'Cenedligrwydd, Cenedlaetholdeb ac Owain Glyndŵr', yn John Davies a Tegid Roberts (gol.), *Yr Angen am Owain: Darlithoedd Fforwm Hanes Cymru* (Llanrwst, 2005), tt. 11–27. Am gofebau i Lyndŵr a'i fudiad a godwyd ers 2000, gw. C. E. Hudson, 'Cymru Owain Glyndŵr mewn Delweddau', *Llyfrgell Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol* <<https://llyfrgell.porth.ac.uk>> [cyrchwyd 13 Awst 2015].

fy sylw at bwnc a fyddai'n cydfynd â'm diddordeb cynyddol yn y ffordd y mae hanes Cymru wedi ei sgrifennu dros y canrifoedd, a chynnig rhai sylwadau ar hanes Glyndŵr ar ôl iddo farw. Wedi'r cwbl, prin bod y gwrthryfel ei hun wedi para'n fwy na rhyw ddegawd, tra bod hanes y cof amdano'n ymestyn bellach dros chwe chanrif, ac yn gallu dadlennu llawer am agweddau'r Cymry at eu gorffennol a'u hunaniaeth fel pobl. Felly os daethoch chi yma'n gobeithio clywed am hanes Glyndŵr a'i wrthryfel yn ôl yn yr oesoedd canol rwy'n ofni y cewch chi'ch siomi!

Hyd y gwn i, y ddarlith hon yw un o'r ychydig achlysuron a drefnwyd i goffâu Glyndŵr eleni.<sup>2</sup> Mae'n wir bod cwrw newydd Owain Glyndŵr wedi ei lansio ym Machynlleth ym mis Chwefror a bod y chwechanmlwyddiant wedi ei ddefnyddio er mwyn annog pobl i gerdded ar Lwybr Glyndŵr.<sup>3</sup> Fel y byddech yn disgwyl, cawn ragor o ddigwyddiadau fis nesaf, gan gynnwys cyhoeddi cyfrol newydd Gruffydd Aled Williams, *Dyddiau Olaf Owain Glyndŵr*,<sup>4</sup> i gyd-daro â chwechanmlwyddiant marwolaeth y tywysog ym Medi 1415. Eto, yn ôl pob golwg cymharol dawel fydd y coffa yn 2015.<sup>5</sup> Fel yr awgrymais yn barod, nid yw hyn yn syndod efallai: anodd fyddai ailgynnau'r holl egni coffaol a welwyd ar ddechrau'r ganrif.

Cyn mynd ymhellach mae'n werth nodi bod y cof am Lyndŵr yn bwnc sy'n cyd-fynd â dau faes a ddenodd dipyn o ddiddordeb gan haneswyr dros y degawdau diwethaf: cof ac arwyr. Ceir astudiaethau di-rif ar sut a pham y mae cymunedau, gan gynnwys cenhedloedd, wedi cofio am ddigwyddiadau ac unigolion yn eu gorffennol, a beth y mae hynny'n ei ddweud am y cymdeithasau sy'n eu cofio. Yr ymgais fwyaf uchelgeisiol oedd yr un dan arweiniad yr hanesydd Pierra Nora (1931–) yn Ffrainc, yn amser yr Arlywydd Mitterand, a esgorodd ar saith gyfrol o ysgrifau ar wahanol agweddau ar y cof cenedlaethol yn Ffrainc. Teitl cyffredinol y gwaith hwn oedd *Les lieux de mémoire* (yn llythrennol, 'mannau'r cof'), cysyniad eang oedd yn cwmpasu nid yn unig unigolion a mannau disgwylidig megis Jeanne d'Arc a Versailles, ond hefyd bob math o wrthrychau a syniadau eraill a gyfrannai at y syniad o bwy oedd y Ffrancod, yn eu plith y faner drilliw a'r caffi.<sup>6</sup> Gellir meddwl am Lyndŵr a'i wrthryfel fel *lieu de mémoire* yng Nghymru. Yn yr un modd, mae astudio'r cof am y tywysog yn perthyn i gyd-destun y diddordeb cynyddol mewn arwyr – nid yn yr ystyr Fictoraidd o arwraddoliaeth y byddaf yn dod ato yn y man, ond yn hytrach y modd y mae arwyr wedi eu creu a'u portreadu. Dyma ffenomen hanesyddol eang sydd wedi esgor ar astudiaethau ar unigolion yn amrywio o'r

2 Darlith a draddodwyd i'r Cymmrodorion yn Eisteddfod Genedlaethol Meifod, 3 Awst 2015.

3 'Ymryson i Lansio Cwrw Glyndŵr' <<http://www.canolfanglyndwr.org/newslist.php?lang=cy&>> [cyrchwyd 12 Gorffennaf 2015]; 'Marking the 600th anniversary of the Death of Owain Glyndŵr' <<http://cy.nationaltrail.co.uk/glyndwrs-way/news/markin-600th-anniversary-death-owain-glyndwr>> [cyrchwyd 14 Gorffennaf 2015].

4 (Talybont, 2015).

5 Er nad yn gwbl anghofiedig, er gwaethaf ofnau Kenneth O. Morgan, 'Give the Welsh More Power', *Prospect Magazine*, 16 Hydref 2014 <<http://www.prospectmagazine.co.uk/features/give-the-welsh-more-power>> [cyrchwyd 12 Gorffennaf 2015].

6 Pierre Nora (gol.), *Les lieux de mémoire*, 7 gyf. (Paris, 1984–92). Am grynodeb beirniadol o syniadau Nora, gw. Geoffrey Cubitt, *History and Memory* (Manceinion, 2007), tt. 46–8.

Ymerawdwr Siarlymaen i Gaptan Scott o'r Antartig.<sup>7</sup>

Wrth gwrs, er ei bod yn bwysig gosod astudio'r cof am Lyndŵr mewn cydestun eang, byddai'n gamarweiniol i awgrymu nad oes neb wedi rhoi sylw i sut y cafodd Owain Glyndŵr ei gofio a'i ystyried yn arwr cenedlaethol. Yn wir, mae'r pwnc eisoes wedi denu cryn sylw gan nifer o ysgolheigion, yn eu plith dau gofiannydd mwyaf Glyndŵr a'i amserau, sef John Edward Lloyd a Rees Davies. Roedd y ddau hanesydd hyn yn ymwybodol iawn o statws Glyndŵr fel arwr cenedlaethol.<sup>8</sup> Cyfiawnhau'r statws hwnnw oedd pwrpas Lloyd: 'Nid Glyndŵr newydd a gynigiai i'm darllenwyr, eithr gwarant deg dros ei ystyried fel yr arwr cenedlaethol rydym yng Nghymru bob amser wedi deall ei fod.'<sup>9</sup> Er mwyn gwneud hynny, rhaid chwalu'r chwedlau amdano a chreu darlun yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Roedd Rees Davies yntau'n gwahaniaethu'n glir rhwng y 'cof gwlad' am Lyndŵr a'r dyn hanesyddol, ond, fel y dangosodd mewn darlith yn yr Eisteddfod ugain mlynedd yn ôl, manteisiodd ar y gwahaniaeth hwnnw er mwyn pwysleisio mai drwy'r 'cof gwlad' yr ymglywodd, ac yr ymglywa, y rhan fwyaf o gymdeithasau â'u gorffennol', a'i fod o'r herwydd yn rhan hanfodol o hunaniaeth pob cymdeithas.<sup>10</sup> Gwelir peth tebygrwydd yma i syniadaeth Pierre Nora, sy'n gwahaniaethu'n gryf rhwng 'cof' poblogaidd a 'hanes' profesiynol, ac yn wir yn poeni bod y naill mewn perygl o ddiflannu dan bwysau'r lall. Un a sicraodd na fyddai traddodiadau o'r fath yn mynd i ddifancoll oedd Elissa Henken, a archwiliodd y delweddau o Lyndŵr mewn ystod o eang o ffynonellau, ac yn arbennig tystiolaeth hanes llafar yng Nghymru yn y 1980au yn bennaf.<sup>11</sup> Ac yn fwyaf diweddar, mae Wyn James a nifer o ysgolheigion eraill wedi bwrw goleuni gwerthfawr ar y darlun o Lyndŵr yn llenyddiaeth Cymru.<sup>12</sup>

Diolch i'r ysgolheigion hyn ac eraill, mae gennym bellach ddarlun gweddol glir o hanes yr agweddau at Owain Glyndŵr ar ôl ei farwolaeth – neu o leiaf yr

- 7 Geoffrey Cubitt ac Allen Warren (gol.), *Heroic Reputations and Exemplary Lives* (Manceinion, 2000); Max Jones, 'What Should Historians Do With Heroes? Reflections on Nineteenth- and Twentieth-Century Britain', *History Compass*, 5/2 (2007), 439–54.
- 8 J. E. Lloyd, *Owen Glendower: Owen Glyn Dŵr* (Rhydychen, 1931), tt. 1–7; R. R. Davies, *The Revolt of Owain Glyn Dŵr* (Rhydychen, 2005), tt. 325–42.
- 9 Lloyd, *Owen Glendower*, t. [vii]: 'I offer my readers, therefore, not a new Glyn Dŵr, but fair warrant for regarding him as the national hero we have always in Wales understood him to be.'
- 10 Rees Davies, *Owain Glyn Dŵr: Hanes a Chof Gwlad* (Darlith Eisteddfodol y Brifysgol, Eisteddfod Bro Colwyn, 1995); dyfyniad ar d. 8. Gw. hefyd *idem*, 'Y Busnes Arwyr 'ma', *Yr Aradr: Cylchgrawn Cymdeithas Dafydd ap Gwilym Rhydychen*, 6 (1995), 16–18.
- 11 Elissa R. Henken, *National Redeemer: Owain Glyndŵr in Welsh Tradition* (Caerdydd, 1996); *eadem*, 'Owain Glyndŵr in Folklore and the Popular Imagination', yn Michael Livingston a John K. Bollard (gol.), *Owain Glyndŵr: A Casebook* (Lerpwl, 2013), tt. 571–84.
- 12 E. Wyn James, *Glyndŵr a Gobaith y Genedl: Agweddau ar y Portread o Owain Glyndŵr yn Llenyddiaeth y Cyfnod Modern* (Aberystwyth, 2007); E. G. Millward, "'Cenedl o Bobl Ddewrion": Y Rhamant Hanesyddol yn Oes Victoria', yn *idem*, *Cenedl o Bobl Ddewrion: Agweddau ar Lenyddiaeth Oes Victoria* (Llandysul, 1991), tt. 104–19 (tt. 106, 112); *idem*, *Yr Arwrgerdd Gymraeg: Ei Thwf a'i Thranc* (Caerdydd, 1998), tt. 148, 188–9, 269; Jane Aaron, *Nineteenth-Century Women's Writing in Wales: Nation, Gender and Identity* (Caerdydd, 2007), tt. 111–14; *eadem*, "'A Nation Once Again": Owain Glyndŵr and the 'Cymraec Dream' of Anglophone Welsh Victorian Poets' (2014) <<http://www.walesartsreview.org/the-gregynog-papers-1-a-nation-once-again-owain-glyndwr-and-the-cymraec-dream-of-anglophone-welsh-victorian-poets>> [cyrchwyd 24 Mehefin 2015].

agweddau a amlygir mewn testunau ysgrifenedig. A gorgyffredinoli'n enbyd, aros ar yr ymylon, ac o dan gysgod i gryn raddau, fu ffawd y tywysog nes i Thomas Pennant gysegru adran helaeth a chydymdeimladol arno yn ei *Tour in Wales* yn 1778. Y cofiant hwn yn anad dim a sefydlodd Lyndŵr yn arwr y gallai'r Cymry ymfalchio ynddo, gan greu darlun ohono a fyddai'n dylanwadu ar lawer o awduron eraill am ryw ganrif wedyn. Eto i gyd, ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif dim ond cychwyn ei yrfa newydd fel arwr haneswyr a llenorion oedd Glyndŵr, a rhaid aros tan ganol oes Victoria nes gweld ei ddyrchafu o ddifrif yn eilun i'r genedl, wrth i lu o gerddi epig a rhamantau poblogaidd ddathlu ei gampau, symudiad a gyrhaeddodd ei anterth rhwng diwedd oes Victoria a diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf.

Dyma faes eang, felly, sy'n haeddu astudiaeth lawer mwy cynhwysfawr na'r hyn y gellir ei gynnig mewn un ddarlith. O'r herwydd, bydd y drafodaeth sy'n dilyn yn canolbwyntio'n bennaf ar ddwy agwedd benodol ar y cof am Lyndŵr. Yn gyntaf carwn gynnig ychydig o sylwadau ar ymdriniaeth haneswyr Cymreig â Glyndŵr o'r cyfnod modern cynnar hyd ddechrau'r ugeinfed ganrif, er mwyn olrhain y modd y daethent i'w ddehongli fel arwr. Bydd hynny yn ei dro'n cynnig rhywfaint o gefndir ar gyfer ail ran y ddarlith, a fydd yn bwrw golwg yn ôl at ganmlwyddiant diwethaf y tywysog yn 1915, sef penllanw'r bri arbennig a osodwyd ar Lyndŵr fel arwr cenedlaethol y Cymry o ddegawdau olaf Victoria ymlaen.

## I

Tan y bedwaredd ganrif ar bymtheg aros y cyrion fu tynged Glyndŵr cyn belled ag yr oedd gweithiau ar hanes Cymru'n bod. Sylw byr a thameidiog a roddwyd iddo, os o gwbl, a hynny fel arfer yng nghwt llyfrau oedd yn canolbwyntio ar bethau eraill. Mae'n wir bod Elis Gruffudd, y milwr o Galais, wedi cynnwys y tywysog yn yr ail ran o'i *Gronicl* anferth sy'n adrodd hanes Lloegr a Chymru o amser Gwilym Orchfygwr hyd 1552. Eto, er i Elis ddangos cydymdeimlad ag Owain, gan nodi ei fod wedi dioddef o dan 'gnwc' (sef 'ergyd', 'llach') Rhisiart II a Harri IV, nid hanes cydlynol o yrfa Glyndŵr a geir yma ond yn hytrach gasgliad byr o chwedlau, gan gynnwys adroddiadau gwahanol am ddiffaniad y tywysog ac arwyddocâd ei fywyd yng ngoleuni'r traddodiad brud.<sup>13</sup> Dyma enghraifft gynnar, felly, o'r hanesydd yn troi at gof gwlad neu lôn-gwerin am ei ddeunydd. Mae'n wir hefyd fod gwrthryfel Glyndŵr yn destun hanes hwy a mwy cydlynol yn yr ail ganrif ar bymtheg, a gyfansoddwyd gan Robert Vaughan neu, efallai, Thomas Ellis (1625–1673), rheithor Dolgellau, ac y cyhoeddwyd fersiwn ohono fel cymar i waith ar hanes ynys Môn yn 1775.<sup>14</sup> Ond mae'n drawiadol mai mewn llyfr teithio, yn hytrach na llyfr hanes fel y cyfryw, yr ymddangosodd ymdriniaeth enwog Thomas Pennant â'r tywysog dair blynedd wedi hynny, wrth i'r awdur grwydro

13 Livingston a Bollard, *Owain Glyndŵr*, tt. 228–30. Am drafodaeth, gw. *ibid.*, tt. 408–11; Henken, *National Redeemer*, tt. 15, 63, 72–3, 99; Jerry Hunter, *Soffestri'r Saeson: Hanesyddiaeth a Hunaniaeth yn Oes y Tuduriaid* (Caerdydd, 2000), tt. 115–18.

14 [Dienw], *A History of the Island of Anglesey [ . . . ] serving as a Supplement to Rowland's Mona Antiqua Restorata. To which are also added, Memoirs of Owen Glendowr [ . . . ] Originally Written by Mr. Thomas Ellis [ . . . ]* (Llundain, 1775). Cymh. Lloyd, *Owen Glendower*, t. 148.

oddi ar ei ddisgrifiad o ogledd Cymru er mwyn casglu ynghyd yr hyn a wyddai am y tywysog a'i gyflwyno'n wron nodedig i'w ddarllenwyr.<sup>15</sup>

Saif gwaith Elis Gruffudd a Thomas Pennant ar wahân i'r traddodiad mwyaf dylanwadol o sgrifennu hanes Cymru a sefydlwyd yn oes Elizabeth I gan Humphrey Llwyd a David Powel. Un o gonglfeini'r traddodiad hwn oedd y gred bod hanes Cymru wedi dod i ben i bob pwrpas gyda chwymp Llywelyn a goresgyniad Edward I yn 1282.<sup>16</sup> Os felly, sut y gallai Owain Glyndŵr fod yn rhan o'r hanes hwnnw? Yr ateb byr oedd, fel rhyw fath o atodiad ar y gorau. I Llwyd, a gwblhaodd ei *Chronica Walliae* yn 1559, roedd yr ateb yn hawdd: gan ei fod yn cyfeirio ei ddarllenwyr at 'y cronicl Seisnig' ar ôl cyrraedd gwrthryfel Madog ap Llywelyn yn 1294, nid oedd angen trafod Glyndŵr o gwbl.<sup>17</sup> Wrth gyhoeddi addasiad o waith Llwyd yn 1584 o dan y teitl *Historie of Cambria, now called Wales* – y llyfr hanes Cymru cyntaf i'w argraffu – ni chafodd David Powel ddihangfa mor rhwydd, gan ei fod wedi ymestyn rychwant cronolegol yr hanes hyd ei gyfnod ef drwy gynnwys adrannau ar dywysogion Seisnig Cymru. Dyma greu gofod ar gyfer hanes Glyndŵr y bu Powel yn ddigon parod i fanteisio arno. Wrth droi at y Tywysog Harri o Fynwy, mab Harri IV, rhydd Powel y rhan fwyaf o'i sylw i wrthryfel Glyndŵr yn hytrach nag i'r Tywysog Harri ei hun.<sup>18</sup> Mae hynny ynddo'i hun yn arwyddocaol. Ac er nad yw Powel yn canmol Owain, diddorol nodi mai Harri IV a enynnodd ei feirniadaeth fwyaf hallt, nid yn unig am fod yn drawsfeddiannwr i'r orsedd ond hefyd oherwydd y deddfau llym a gyhoeddodd yn erbyn y Cymry mewn ymateb i'r gwrthryfel. Mae'n wir bod Powel yn credu bod Glyndŵr wedi mynd yn rhy bell wrth godi yn erbyn y goron, ond awgrymai mai'r beirdd a'r brudwyr oedd ar fai am ei arwain ar gyfeiliorn i'r 'baradwys ffŵl' honno.<sup>19</sup> Cawn ddehongliad tebyg, ond yn fwy cydymdeimladol â'r tywysog, gan George Owen, yr hynafiaethydd o Sir Benfro, a leisiodd y farn ei bod yn drueni nad oedd pawb yn Lloegr wedi dilyn esiampl Glyndŵr a gwrthwynebu Harri IV, a thrwy hynny 'arbed bywydau miloedd lawer o ddeiliaid Seisnig da' yn Rhyfeloedd y Rhosynnau.<sup>20</sup>

Yr hyn sydd gennym yma, wrth gwrs, yw enghreifftiau o duedd ddigon cyffredin, sef dehongli'r gorffennol yng ngoleuni diddordebau a rhagdybiaethau'r presennol. Gellid dadlau nad oedd gan haneswyr a hynafiaethwyr Cymreig awydd i olrhain hanes Glyndŵr fel y cyfryw. Yn hytrach, defnyddient y cof amdano er mwyn hyrwyddo eu hamcan o ddatlu bendithion dyfodiad llinach y Tuduriaid a'r hawliau cyfartal a roddwyd i Gymru, yn eu tyb hwy, yn sgil ei huno â theyrnas Lloegr o dan

15 Thomas Pennant, *A Tour in Wales. Vol. I* (Llundain, 1778; adarg. Wrecsam, 1991), tt. 325–94.

16 Huw Pryce, *J. E. Lloyd and the Creation of Welsh History: Renewing a Nation's Past* (Caerdydd, 2011), tt. 82–3.

17 Humphrey Llwyd, *Cronica Walliae*, gol. Ieuan M. Williams (Caerdydd, 2002), t. 224.

18 David Powel, *The Historie of Cambria, now called Wales* (Llundain, 1584; adarg. ffacsimile, Amsterdam ac Efrog Newydd, 1969), tt. 385–8.

19 Powel, *Historie*, t. 386. Roedd ergyd gyfoes i sylw Powel, gan iddo resynu bod brudwyr a honnai fod yn hyddysg ym mhroffwydoliaethau Myrddin yn bodoli o hyd yn ei oes ef.

20 George Owen, 'The Dialogue of the Government of Wales', yn *The Description of Penbrokeshire by George Owen of Henllys, Lord of Kemes*, gol. H. Owen (Llundain, 1892–1936), III, tt. 35–6 (dyfyniad ar d. 36). Ar farn Powel ac Owen, gw. Davies, *Revolt*, tt. 329, 335; Henken, *National Redeemer*, tt. 10, 16.

Harri VIII.<sup>21</sup> Nid cyd-ddigwyddiad, felly, oedd portreadu Glyndŵr fel chwaraewr yng nghystadleuaeth ddynastig y deyrnas honno. Yn yr un modd, dadleuir bod Syr John Wynn o Wedir wedi gorliwio effeithiau dinistriol y gwrthryfel er mwyn portreadu Cymru'r bymthegfed ganrif fel oes dywyll cyn y wawr a gododd yn sgil dyfodiad y Tuduriaid.<sup>22</sup> Eto, roedd yn amhosibl anwybyddu Glyndŵr yn llwyr.

Yr hanes Cymreig printiedig cyntaf o sylwedd i'w gyhoeddi ar ôl Powel oedd fersiwn newydd o'i waith gan William Wynne, a ymddangosodd gyntaf yn 1697 tra oedd ei awdur yn gymrawd yng Ngholeg Iesu, Rhydychen. Darlun llawnach o Lyndŵr, ond hefyd un duach, a gynigwyd yma.<sup>23</sup> Ymhelaethodd Wynne ar adran Powel ar Lyndŵr drwy dynnu ar weithiau eraill, yn eu plith y croniclydd Seisnig Holinshed a hefyd, fe ymddengys, hanes y tywysog gan Vaughan neu Ellis.<sup>24</sup> Yr hanes hwnnw, mae'n debyg, oedd ffynhonnell y darn am ymgais Dafydd Gam i lofruddio'r tywysog yn senedd Machynlleth.<sup>25</sup> Yn wahanol i Powel, dywedodd Wynne yn blwmp ac yn blaen fod Owain wedi ei gyhoeddi'n Dywysog Cymru. Ond fe'i cyhuddodd o falchder gormodol, gan gwyno bod Owain wedi hawlio ei deitl drwy ymhoni ei fod yn ddisgynydd i ferch Llywelyn ein Llyw Olaf, ac mai chwarae rhan tywysog ydoedd yn unig. At hynny, dilynodd Holinshed wrth ddatgan bod Glyndŵr wedi diweddau ei oes ar ffo gan farw'n druenus.<sup>26</sup> Ac er iddo gollfarnu deddfau Harri IV, roedd Wynne yn llai parod na Powel i bortreadu'r brenin fel trawsfeddiannwr a thrwy hynny gynnig rhyw gymaint o gyfiawnhad dros benderfyniad Glyndŵr i wrthryfela yn ei erbyn.

Aros yn ymylol, ac o dan gwmwl, a wnâi Glyndŵr yn hanesyddiaeth Cymru ar ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg felly. Fel y gwelwom, daeth tro ar fyd ar ddiwedd y ganrif ddilynol diolch i Thomas Pennant, a gyfeiriair – am y tro cyntaf o bosib – at y tywysog fel 'arwr' ac adrodd ei hanes yn fanylach ac yn fwy cydymdeimladol nag erioed o'r blaen. Eto, rhaid nodi dau beth. Yn gyntaf, mae'r cyfeiriadau at Lyndŵr fel arwr yn brin ac wedi eu cyfyngu i ddechrau a diwedd yr hanes, a hwyrach i'w dehongli'n gyffyrddiadau rhetregol rhamantaidd yn bennaf; at hynny, nid oes ymgais i fawrygu Glyndŵr yn arwr *Cymreig* neu *genedlaethol* fel y cyfryw, er bod hynny'n ymhyg yn y disgrifiad efallai.<sup>27</sup> Yn ail, nid yw Pennant yn cefnu'n llwyr

21 Cymh. Davies, *Revolt*, t. 281.

22 Sir John Wynn, *The History of the Gwydir Family and Memoirs*, gol. J. Gwynfor Jones (Llandysul, 1990), tt. xxxii–xxxiii, 51. Yn ei Ragymadrodd i'r cyfieithiad o'r Testament Newydd yn 1567 roedd yr Esgob Richard Davies eisoes wedi pwysleisio dinistr y gwrthryfel a'r llyfrau a gollwyd o'i herwydd: *Rhagymadroddion 1547–1659*, gol. Garfield H. Hughes (adarg., Caerdydd, 1976), t. 24.

23 William Wynne, *The History of Wales* (Llundain, 1697), tt. 315–22. Ar y gwaith hwn, gw. R. T. Jenkins, 'William Wynne and the *History of Wales*', *Bulletin of the Board of Celtic Studies*, 6 (1931–3), 153–9.

24 J. R. S. Phillips, 'When Did Owain Glyndŵr Die?', *Bulletin of the Board of Celtic Studies*, 24 (1970–2), 59–77 (tt. 62–3).

25 Wynne, *History*, tt. 320–2; Dienw, *History of the Island of Anglesey*, tt. 67–8.

26 Ar adroddiad Holinshed, sy'n ddyledus i un Edward Halle, gw. Alicia Marchant, *The Revolt of Owain Glyndŵr in Medieval English Chronicles* (Woodbridge, 2014), tt. 77–8, 86–7, 204–5.

27 Pennant, *Tour*, tt. 325, 326, 392, 393. Gw. hefyd y cyfieithiad o gerdd Gruffudd Llwyd i Lyndŵr yn Dienw, *History of the Island of Anglesey*, t. 85, lle cymherir y tywysog â 'nine heroes' (wrth droi'r geiriau 'naw ryw milwr').

ar ddelweddau cynharach a gyflwynai'r tywysog fel rhyfelwr creulon a dialgar.<sup>28</sup> Felly, er bod newid cywair, yn sicr, roedd peth ffordd i fynd o hyd cyn gorseddu Glyndŵr fel arwr cenedlaethol.

Cyfrannai haneswyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg at y broses hon, ond rhaid nodi bod eu barn ar y tywysog yn amrywio ac mai ond yn raddol y daeth rhai ohonynt i'w bortreadu'n arwr diledryw i'r genedl yn anad dim. Ar ddechrau'r ganrif digon llugoer oedd William Owen [Pughe] wrth drafod y tywysog yn ei *Cambrian Biography* (1803), a diddorol gweld bod J. H. Parry, rhyw ugain mlynedd ar ôl hynny yn ei gyfrol fywgraffyddol yntau, *The Cambrian Plutarch* (1824), yn teimlo bod rhaid amddiffyn Glyndŵr rhag y cyhuddiad o deyrnfradwriaeth wrth ei ganmol fel arwr a ymladdai dros ryddid ei genedl.<sup>29</sup> Er na alwodd ef yn deyrnfradwr, yr oedd John Jones, a gyhoeddodd lyfr ar hanes Cymru yr un flwyddyn, o'r farn bod Glyndŵr yn fradwrus ac annidwyll wrth ymwneud â'i gynghreiriad yn Lloegr a Ffrainc.<sup>30</sup> Eto, fel y mae gwaith Parry yn ei awgrymu, roedd y rhod yn dechrau troi o blaid y gwron o Lyndyfrdwy. Cawn brawf pellach o hynny mewn dau lyfr a gyhoeddwyd yn 1822. Cydnabu Parry ei ddyled i un ohonynt, sef *Memoirs of Owen Glendower* gan y Parchedig Thomas Thomas, rheithor Aberporth yn Sir Aberteifi.<sup>31</sup> Fel y mae ei deitl yn ei awgrymu, torrodd y llyfr hwn dir newydd drwy osod Glyndŵr yn ganolbwynt i hanes y Cymry. Yn ei ragair, achubodd Thomas ar y cyfle i amddiffyn dilysrwydd hanes Sieffre o Fynwy; aeth rhagddo wedyn i amlinellu hanes Llywelyn ap Gruffudd a goresgyniad Edward I; a thynnodd ei waith i derfyn gyda braslun o hanes Cymru ers diwedd y gwrthryfel. Ond y mae trwch y gyfrol – dros 140 tudalen, ddwywaith hyd trafodaeth Pennant – yn canolbwyntio ar Lyndŵr ei hun, gan gynnig yr hanes llawnaf ohono a gyhoeddwyd hyd hynny. Mae'n wir nad canmoliaeth ddigymysg a fynegir yma. Condemnir anrheithiau Owain a'i ysbryd dialgar, ei anghyfiawnder a'i ddiffyg cymedroldeb. Ond, serch hynny, yr oedd y tywysog yn haeddu cael ei ganmol oherwydd ei wladgarwch a'i 'gariad angerddol at ryddid', ac yr un mor deilwng o fawl â Cromwell neu Buonaparte.<sup>32</sup>

Yr ail lyfr a gyhoeddwyd yn 1822 oedd *Prydnawngwaith y Cymry* gan William Williams Llandygái, gwaith yn nhraddodiad Powell a Wynne ac fel eu cyfrolau hwy'n cysegru nifer o dudalennau i adrodd hanes Glyndŵr. I raddau, dilyn ei ragflaenwyr a wnaeth Williams, yn arbennig wrth gondemnio deddfau Harri IV; ond, er na alwodd Lyndŵr yn arwr, tarodd nodyn na chlywyd mohono o'r blaen yn y traddodiad hanesyddiaethol hwnnw wrth ei ganmol am '[f]wrw 15 mlynedd yn

28 Pennant, *Tour*, tt. 333–4, 361.

29 William Owen, *The Cambrian Biography; or Historical Notices of Celebrated Men among the Ancient Britons* (Llundain, 1803), tt. 273–6; John H. Parry, *The Cambrian Plutarch: Comprising Memoirs of Some of the Most Eminent Welshmen, from the Earliest Times to the Present* (Llundain, 1824), tt. 229–72 (t. 272).

30 John Jones, *The History of Wales, Descriptive of the Government, Wars, Manners, Religion, Laws, Druids, Bards, Pedigrees, and Language of the Ancient Britons and Modern Welsh, and of the Remaining Antiquities of the Principality* (Llundain [1824]), t. 115.

31 Thomas Thomas, *Memoirs of Owen Glendower (Owain Glyndwr); with a Sketch of the History of the Ancient Britons, from the Conquest of Wales by Edward the First, to the Present Time* (Hwlfordd, 1822).

32 Thomas, *Memoirs*, tt. ii, 170.

rhyfela am ryddid i'w genedl'.<sup>33</sup> Cryno hefyd yw'r sôn am Lyndŵr mewn gwaith arall a ganolbwyntiai ar y cyfnod hyd 1282, sef *Hanes Cymru* y Parchedig Thomas Price 'Carnhuanawc', a lwyddodd i ddangos ei lwiauw o blaid arwriaeth Glyndŵr tra ymesgusodai rhag adrodd troeon ei yrfa'n fanwl: 'Byddai hanes *Owain Glyndwr* yn rhyfaith iddei [*sic*] roddi yma yn ei gyflawnder; felly barnaf mai gwell gadael y gwron hwn gyda'r ychydig gyfeiriadau hyn yn unig, na gwneud yr anghyfiawnder o anffurfio ei orchestion, trwy eu rhoddi mewn dull hanes talfyredig.'<sup>34</sup> Ar un llaw, dyma gydnabod bod tipyn i'w ddweud bellach am y tywysog, ond ar y llaw arall, mae'n amlwg na themlai Carnhuanawc fod angen dyrchafu'r 'gwron' yn ffigur allweddol yn hanes y genedl.

Gwahanol iawn oedd ymdriniaeth Gweirydd ap Rhys ymhen deng mlynedd ar hugain, yn y gwaith mawr nesaf i'w gyhoeddi yn Gymraeg ar hanes Cymru, sef *Hanes y Brytaniaid a'r Cymry*.<sup>35</sup> Dyma daro cywair newydd yn nelwedd yr haneswyr o Lyndŵr, o ran ei bwysigrwydd fel arwr yn ogystal â'i nodweddion arwrol. Fel y gwelsom, ers i Thomas Pennant gyflwyno ei ddarlun newydd o'r tywysog ryw ganrif ynghynt daethpwyd yn gynyddol arferol i'w bortreadu fel gwron, a hynny ar gyfrif ei ymdrechion milwrol i sicrhau rhyddid i'w wlad. Fodd bynnag, erbyn i Gweirydd ap Rhys sgrifennu, roedd gofyn ar 'arwyr ac arwraddoliaeth', a dyfynnu un o'i brif hyrwyddwyr, Thomas Carlyle.<sup>36</sup> Fel y dangosodd Hywel Teifi Edwards, teimlai Cymry gwlatgar y cyfnod fod angen sicrhau nad oedd Cymru ar ôl ei chymdogion Seisnig yn hyn o beth, a chyhoeddodd R. J. Derfel ysgriffaith i'r perwyl hwn yn 1855, er na chrybwyllodd Lyndŵr (na'r ddau Lywelyn) ymhlith yr enghreifftiau niferus a enwodd yno.<sup>37</sup> Gwnaeth Derfel iawn am y diffyg hwn, fodd bynnag, mewn baled Saesneg a alwai am godi cofeb i'r gwron ac arwyr eraill y genedl, er mai digon tila oedd honno o'i chymharu ag arwrgerdd arobrynfaith Hwfa Môn, 'Owen Glyndwr' yn Eisteddfod Caerfyrddin yn 1867 – 'Arwraddoliaeth ar ei mwyaf elfennol ac anfeiriadol' chwedl E. G. Millward.<sup>38</sup>

Er yn fwy beirniadol a chynnil o dipyn, yr oedd y darlun a gyflwynodd Gweirydd ap Rhys o Owain Glyndŵr hefyd yn ddyledus i gonfensiynau arwraddoliaeth y cyfnod. Nid oedd yr un o'r gweithiau hanesyddol rwyf wedi eu crybwyll hyd yn hyn wedi mynd mor bell â dyrchafu'r tywysog i'r un graddau â Gweirydd wrth iddo ddatgan: 'Ymddengys i ni, ar y cyfan, nad oes neb, yn ystod holl hanes ein cenedl, yn deilwng o edmygedd uwch nag Owain Glyndwr.'<sup>39</sup> Fel y cawn weld, roedd digon yn barod i gytuno â'r farn honno dros y degawdau dilynol. At hynny,

33 William Williams, *Prydnawngwaith y Cymry a Gweithiau Eraill*, gol. Dafydd Glyn Jones (Bangor, 2011), tt. 68–73 (dyfyniad ar d. 72).

34 Thomas Price, Carnhuanawc, *Hanes Cymru* (Crughywel, 1842), tt. 770–2 (dyfyniad ar d. 772).

35 Gweirydd ap Rhys, *Hanes y Brytaniaid a'r Cymry* (Llundain, 1872–4), II, tt. 297–9.

36 Thomas Carlyle, *On Heroes, Hero-Worship, and the Heroic in History* (Llundain, 1841).

37 Hywel Teifi Edwards, "'Gosodir Ni yn Îs na Phawb": Cymru Victoria ar Drywydd Enwogrwydd', yn Jason Walford Davies (gol.), *Gweledigaethau: Cyfrol Deyrngeid Yr Athro Gwyn Thomas* (Llandybie, 2007), tt. 159–72; [R. J. Derfel], 'Cymru yn ei Chysylltiad ag Enwogion', *Y Traethodydd*, 11 (1855), 322–59.

38 [R. J. Derfel], *Owen Glyndwr, with Explanatory Notes for Reading and Repetition*. Derfel's School Series (Manceinion, d.d.); Millward, *Yr Arwrgerdd Gymraeg*, t. 189.

39 Gweirydd ap Rhys, *Hanes*, II, t. 298.



yr oedd Owain yn fwy na rhyfelwr llwyddiannus ‘a adferodd annibyniaeth a hen derfynau ei wlad’, oherwydd ‘tynerid ei wroldeb ef gan ddoethineb dyngarol; cedwid ei uchelgais heb ei lychwino gan hunanoldeb; ac nis gellir profi ddarfod iddo erioed [...] gynnyg aberthu annibyniaeth ei wlad er mwyn dyrchafu ei hun a’i deulu’.<sup>40</sup> Yn fyr, felly, meddai ar gymeriad a moesau y gallai’r parchusaf o Gymry oes Victoria eu cymeradwyo. Dyna ysgogi Gweirydd wedyn i bwysleisio cyfraniad y cof am Lyndŵr a gwroniaid canoloesol eraill i barhâd y genedl. Mewn geiriau sydd fel petaent yn rhagfynegiant o eiriau clo enwog J. E. Lloyd yn ei *History of Wales* yn 1911 wrth iddo gloriannu arwyddocâd marwolaeth Llywelyn ein Llyw Olaf, mynnai Gweirydd nad oedd ei choncwest derfynol wedi dinistrio Cymru, oherwydd ‘y mae prydyddiaeth a thraddodiad, trwy ddiogelu’r cofnodau am ei hanfod oedd unwaith mor egnïol, a’r hanes bruddaidd am ei chwymp, rhag myned ar ddfancoll, wedi cadw ei hyspryd cenedlaethol yn fyw, yr hwn y methodd canrifoedd o lywodraethiad estronol ei ddiffodd na’i wanhaus’.<sup>41</sup>

Nid Gweirydd ap Rhys oedd yr unig hanesydd i bortreadu Glyndŵr fel ysbrydoliaeth i’w genedl. Dyma O. M. Edwards ar ddiwedd oes Victoria: ‘Machluodd seren Glyndwr, ond y mae’n codi eto heddyw, ac Owen Glyndwr yn fyw ar flaen y gad.’<sup>42</sup> Ychydig ar ôl hynny nid annhebyg oedd neges Owen Rhoscomyl, yr anturiaethwr, milwr, imperialydd a chenedlaetholwr Cymreig, wrth fynnu bod bedd y tywysog i’w ganfod ‘yng nghalon pob gwir Gymro’.<sup>43</sup> Yn ogystal, priodolai’r ddau awdur hyn rinweddau newydd i’r gwron a’i cymhwysai’n well i ateb gofynion democrataidd eu hoes drwy ei bortreadu, nid yn unig yn rhyfelwr dros annibyniaeth ei wlad, ond hefyd yn wladweinydd praff ac ymladdwr dros hawliau’r bobl gyffredin.<sup>44</sup> Yn wir, daeth yn symbol o weledigaeth sylfaenol O. M. Edwards o hanes Cymru, a ymrannai, meddai, yn ddau brif gyfnod, sef oes y tywysogion ac oes y werin Anghydfurfiol Gymraeg a oedd eu gwir etifeddiion. Camp Glyndŵr oedd cysylltu’r ddwy oes honno, ‘yr hen a’r newydd yn hanes Cymru’, gan ei fod nid yn unig yn ddisgynydd i’r tywysogion oedd wedi brwydro dros annibyniaeth ond hefyd yn arweinydd ‘y werin yn ei deffroad cyntaf’.<sup>45</sup> Mewn man arall awgrymodd yn gryf mai gwrthryfel y werin oedd gwrthryfel Glyndŵr yn anad dim.<sup>46</sup>

40 Ibid., tt. 298–9.

41 Ibid., t. 299. Cymh. John Edward Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (Llundain, 1911), II, t. 764: ‘It was for a far distant generation to see that the last Prince had not lived in vain, but by his life-work had helped to build solidly the enduring fabric of Welsh nationality.’

42 Owen M. Edwards, ‘Rhagymadrodd: Oes Owen Glyndwr’, yn Thomas Pennant, *Hanes Owen Glyndwr, Tywysog Cymru; yr hwn a ymladdodd yn erbyn holl gadernid Lloegr a’r Iwerddon, o’r Flwyddyn 1400 hyd y Flwyddyn 1415* (Caermarfon, d.d.), tt. 9–16 (t. 16).

43 Owen Rhoscomyl, *Flame-Bearers of Welsh History* (Merthyr Tudful, 1905), t. 228.

44 Ibid., tt. 219, 223, 224–5; Edwards, ‘Rhagymadrodd’, tt. 9, 15; Owen M. Edwards, *Wales* (Llundain, 1901), tt. 275, 281–2.

45 Edwards, ‘Rhagymadrodd’, t. 9. Cymh. Lowri Angharad Hughes Ahronson, “‘A Refreshingly New and Challenging Voice’: O. M. Edwards’s Interpretation of the Welsh Past”, yn Neil Evans a Huw Pryce (gol.), *Writing a Small Nation’s Past: Wales in Comparative Perspective, 1850–1950* (Farnham, 2013), tt. 127–40, yn arb. tt. 133–6.

46 Edwards, *Wales*, t. 281.

## II

Erbyn pumcanlwyddiant ei farw yn 1915 yr oedd Glyndŵr wedi hen ennill ei blwyf, felly, fel arwr cenedlaethol y Cymry. Dyna benllanw'r sylw cynyddol a roddwyd i'r tywysog ers degawadau olaf Victoria ymlaen, fel yr awgrymai D. Rhys Phillips wrth nodi, yn ei ragair i'r llyfryddiaeth gynhwysfawr o weithiau ar Lyndŵr a gyhoeddodd y flwyddyn honno, mai'r chwarter canrif blaenorol fu oes aur y cyhoeddiadau ar y gwron.<sup>47</sup> Diddorol sylwi hefyd fod enwi bechgyn ar ôl Owain Glyndŵr wedi cyrraedd ei anterth yng Nghymru yn ystod teyrnasiad Edward VII.<sup>48</sup> Ar yr un pryd, er bod cyd-destun Cymreig penodol i'r datblygiad hwn, roedd hefyd yn rhan o bwyslais llawer ehangach ar arwyr fel seiri cenedl. Dyna ragdybiaeth cyfres o lyfrau a gyhoeddwyd, y ddwy ochr i Fôr Iwerydd, o 1890 ymlaen o dan y teitl 'Heroes of the Nations', er mwyn, meddid, darparu astudiaethau ar unigolion a oedd wedi dod yn ganolbwynt i draddodiadau, ac weithiau'n gynrychiolwyr delfrydau, cenedloedd gwahanol. Cynhwysai'r gyfres nid yn unig unigolion, megis Nelson a Napoleon, a gynrychiolai genhedloedd ymerodrol, ond hefyd arweinwyr cenedloedd bach, yn eu plith Robert Bruce yn yr Alban, Daniel O'Connell yn Iwerddon ac yna, yn 1902, Owain Glyndŵr, a gyflwynwyd gan awdur y gyfrol arno, Arthur Granville Bradley, fel 'yr olaf a mwyaf nodedig o filwyr gwladgarol Cymru'.<sup>49</sup>

Rhoddydwyd arwyddocâd newydd i Lyndŵr y milwr yn 1915. Mae'r sylw a roddwyd iddo'r flwyddyn honno yn ddadlennol ar sawl cyfrif, fel y ceisiaf egluro yng ngweddill y ddarlith. Am un peth, cawn yma enghraifft berffaith o'r ffordd y lliwiwyd y cof am Lyndŵr gan amgylchiadau cyfoes, sef, yn yr achos hwn, y Rhyfel Byd Cyntaf. Ac yn yr ymdrechion i'w gyflwyno fel arwr i ysbrydoli'r Cymry yn y rhyfel yn erbyn yr Almaen dysgwn lawer am wladgarwch a chenedligrwydd yng Nghymru ganrif yn ôl.

Yn wahanol iawn i eleni, cafwyd ymdrech fwriadol i gofio Glyndŵr ar raddfa eang yng Nghymru yn 1915. Ar y cychwyn, fe ymddengys mai un dyn fu'n bennaf gyfrifol am ddadlau dros droi'r pumcanlwyddiant yn ddigwyddiad cenedlaethol o bwys, sef Thomas Matthews o Landybïe, athro ysgol, awdur amlochrog a gwladgarwr Cymreig egniol y cofir amdano gan haneswyr Cymru'r oesoedd canol am ei gyfrol werthfawr *Welsh Records in Paris*, casgliad o ddogfennau Cymreig yn Archifau Gwladol Ffrainc, yn eu plith nifer o lythyrau Glyndŵr.<sup>50</sup> Mae'n amlwg i'r tywysog apelio at wladgarwch Matthews, oherwydd, wrth lunio ei ragair i'r gyfrol yn 1909, mynegodd y gobaith y byddai pumcanlwyddiant marw Glyndŵr 'yn gweld teyrnged Genedlaethol i fawredd Owain'.<sup>51</sup> Dychwelodd i'r pwnc yn

47 D. Rhys Phillips, *A Select Bibliography of Owen Glyndwr*, Welsh Bibliographical Society.

Glyndwr Quincentenary, 1415–1915 (Abertawe, 1915), 'Preface'.

48 A barnu wrth dystiolaeth cofnodion geni, bedydd a marwolaeth a gyrchais ar <ancestry.co.uk>; gw. hefyd James, *Glyndŵr a Gobaith y Genedl*, t. 40.

49 A. G. Bradley, *Owen Glyndwr and the Last Struggle for Welsh Independence; with a Brief Sketch of Welsh History* (Llundain, 1902), t. iii.

50 T. Matthews (gol.), *Welsh Records in Paris* (Caerfyrddin, 1910); adarg. gyda thrafodaeth ar yr awdur yn Dylan Rees a J. Gwynfor Jones, *Thomas Matthews's Welsh Records in Paris: A Study in Selected Welsh Medieval Records* (Caerdydd, 2010).

51 Matthews, *Welsh Records*, t. [xi].

1914. Ym mis Ionawr cyhoeddodd O. M. Edwards yn ei gylchgrawn *Cymru* y byddai yntau'n rhoi sylw arbennig i Lyndŵr y flwyddyn honno: 'Dyma ni, nid yn unig yn adeg ei bum can mlwyddiant, ond yn adeg sylweddoli ei freuddwydion ardderchog; y mae ysbryd y gwr rhyfedd hwn fel pe'n fyw yn ein plith ac yn ein harwain [. . .] yn ein hoes ni y daw y fuddugoliaeth.'<sup>52</sup>

Mae'n ansicr a oedd O. M. wedi camaseru'r pumcanmlwyddiant i 1914. Beth sydd yn eglur, fodd bynnag, yw mai ceisio trefnu dathliadau y flwyddyn ddilynol oedd bwriad Tom Matthews, ac erbyn mis Gorffennaf roedd nifer o unigolion eraill, gan gynnwys D. Lleufer Thomas, wedi cynnig awgrymiadau ar sut i 'anrhydeddu y Tywysog Owen' yn 1915.<sup>53</sup> Mae'n amlwg, felly, fod symudiad i goffáu'r pumcanmlwyddiant ar droed cyn cychwyniad y Rhyfel Mawr yn Awst 1914. Mae'n amlwg hefyd fod gan Matthews deyrnged uchelgeisiol mewn golwg, yn cynnwys cofadail i'r tywysog, nifer o gerfluniau ohono yn ogystal â murluniau'n dangos ei hanes, cyfansoddiadau amdano gan feirdd, cerddorion a haneswyr, arddangosfa wedi ei threfnu gan y Llyfrgell Genedlaethol a'r Amgueddfa Genedlaethol, i'w hagog adeg yr Eisteddfod Genedlaethol, a phererindodau mewn ardaloedd gwahanol. Ymhelaethodd ar ei gynlluniau ym mis Hydref 1914 yn y cylchgrawn *Cymru*, mewn erthygl genedlaetholgar iawn ei naws, yn dyfynnu o lythyr Pennal bron yn yr un gwynt â Mazzini, ac yn galw'n daer ar ei gyd-Gymry i achub ar y cyfle i anrhydeddu Glyndŵr er mwyn tystio i'w ffydd yn eu dyfodol fel cenedl. 'Afraid sôn am Gymru fydd,' meddai, 'os ym heb barch at Gymru fu.'<sup>54</sup>

Beth ddaeth o'r holl gynlluniau uchelgeisiol hyn? Ar un olwg, ychydig iawn. A dyfynnu D. Rhys Phillips: 'Mawr oedd bryd Tom Matthews am gael dathliad cenedlaethol i Owen Glyndŵr yn 1915; ond llesteiriwyd pob ymdrech bron gan ddiffaethder creulon y rhyfel.'<sup>55</sup> Yr oedd eraill o farn debyg: yn ôl James Conway Davies byddai'r pumcanmlwyddiant wedi ei ddathlu'n iawn yng Nghymru oni bai am y rhyfel.<sup>56</sup> Eto, prin bod Glyndŵr wedi ei anghofio. Wedi'r cwbl, daeth sylw Conway Davies mewn darlith ar y tywysog yn Abertawe ym mis Rhagfyr 1915, un o gryn nifer o ddarlithiau o'r fath a draddodwyd yn ystod y flwyddyn. Yn anad dim, gwiredwyd un o amcanion Tom Matthews, sef cael y Bwrdd Addysg i 'alw sylw at y pumcanmlwyddiant hwn, ac i geisio fod bywyd a neges Glyn Dwr i fod yn destyn arbennig ar Ddydd Gŵyl Ddewi, 1915'.<sup>57</sup> Arwydd cynnar o barodrydd Adran Gymreig y Bwrdd Addysg i wrando ar yr alwad hon oedd penderfyniad ei ysgrifennydd, Alfred T. Davies, ym mis Hydref 1914, 'gyda golwg ar bumcanmlwyddiant Owain Glyndŵr yn 1915', i ychwanegu llyfryddiaeth D. Rhys Phillips ar y tywysog i'r rhestrau o lyfrau a ddarparai'r Adran ar gyfer llyfrgelloedd ysgolion Cymru. Yna, erbyn diwedd y flwyddyn, penderfynodd yr

52 [O. M. Edwards], 'Yr Amcan', *Cymru*, 46, 270 (Ionawr 1914), [9].

53 Yr *Adsain*, 28 Gorff. 1914. Cefais hyd i'r holl ddeunydd papur newydd y cyfeirir ato yn yr erthygl hon ar 'Papurau Newydd Cymru Arlein' Llyfrgell Genedlaethol Cymru <<http://papuraunewydd.llyfrgell.cymru>>.

54 T. Matthews, 'Pumcanlwyddiant Owen Glyndŵr', *Cymru*, 47, 279 (Hydref 1914), 153–7 (dyfyniad ar 157).

55 D. Rhys Phillips, 'Thomas Matthews, M.A.', *Y Geninen*, 35 (1917), 109–13, 206–10 (t. 206).

56 *South Wales Weekly Post*, 18 Rhagfyr 1915. Gw. hefyd *Y Gwylhedydd Newydd*, 27 Gorffennaf 1915.

57 *Yr Adsain*, 28 Gorffennaf 1914.

Adran Gymreig gyhoeddi llyfryn, mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg, yn rhoi cyfarwyddiadau i ysgolion ar sut i ddathlu Gŵyl Ddewi yn 1915, cyfarwyddiadau a roddai le canolog i Owain Glyndŵr.<sup>58</sup>

Os mai ysgrifennydd yr Adran Gymreig a awdurdodd y llyfryn, a gyhoeddwyd – mewn 40,000 o gopïau – yn gynnar yn 1915, mae'n dra thebygol bod gan ei Phrif Arolygydd, sef O. M. Edwards, gryn ddylanwad ar ei gynnwys.<sup>59</sup> I'n dibenion ni, beth sy'n drawiadol am y llyfryn yw'r anogaeth a rydd i goffâu canmlwyddiannau dau ryfelwr o Gymro – sef Owain Glyndŵr a'r Cadfridog Syr Thomas Picton, a laddwyd ym mrwydr Waterloo yn 1815. Byddai'r ddau'n cydsefyll eto'r flwyddyn ddilynol, ymhlith y cerfluniau o arwyr Cymru a ddadorchuddiwyd yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ryfel David Lloyd George.<sup>60</sup> Roedd rhaid i Ddewi Sant gamu rywfaint o'r neilltu ar ei wyl yn 1915 felly. Cafodd y llyfryn lawer o sylw yn y wasg Gymreig, ac a barnu wrth adroddiadau papur newydd dilynwyd ei argymhellion yn bur eang, wrth i blant gael eu hannerch ar rinweddau'r ddau wron a'r esiampl a roddent ar adeg arall o ryfel.<sup>61</sup>

Mae'n wir mai rhan o batrwm llawer ehangach oedd dwyn ysbrydoliaeth o'r oesoedd canol mewn perthynas â'r Rhyfel Byd Cyntaf. Yn ogystal â dyrchafu, fel y cawn weld, esiampl tywysogion Cymru daeth Lloyd George i alw'r rhyfel yn groesgad a'r dynion a ymladdai yn yr awyr yn farchogion a atgoffai bobl o hen chwedlau sifalri.<sup>62</sup> Cysylltwyd Jeanne d'Arc, cyfoeswraig iau â Glyndŵr a fu hithau'n ymladd yn erbyn y Saeson, â'r ymdrech i amddiffyn Ffrainc nid yn unig yn ei gwlad ei hun, lle'r oedd eisoes yn arwres (er bod y cof amdani'n destun ymgiprys rhwng carfanau gwleidyddol gwahanol, fel y mae o hyd), ond hefyd ym Mhrydain a'r Unol Daleithiau – yn 1916 y gwnaeth Cecil B. De Mille ei ffilm *Joan the Woman*, oedd yn cynnwys golygfeydd o feysydd rhyfel Ffrainc.<sup>63</sup> Ac a throï'n agosach fyth at gyfnod Glyndŵr, credai'r Almaenwyr fod eu buddugoliaeth fawr dros Rwsia yn Awst 1914 ger Tannenberg yn Nwyrain Prwsia (Gwlad Pwyl bellach) wedi talu'r pwyth yn ôl o'r diwedd am fuddugoliaeth y Pwyliaid a Lithwaniaid dros y Marchogion Tiwtonaidd yn y fan honno bum canrif ynghynt yn 1410.<sup>64</sup>

Ar un olwg, roedd gwahaniaeth pwysig rhwng cymariaethau o'r fath a'r apêl at Lyndŵr, gan fod y tywysog Cymreig wedi ymladd dros annibyniaeth i Gymru ar goron Lloegr, tra bod galw ar Gymry'r ugeinfed ganrif i gydymhladd â'r Saeson

58 *Amman Valley Chronicle and East Carmarthen News*, 29 Hydref 1914; *North Wales Chronicle*, 15 Ionawr 1915.

59 [Adran Gymreig Y Bwrdd Addysg], *Dydd Gŵyl Dewi Sant: Gŵyl Goffa Cymru 1915* ([Caerdydd] 1915); Welsh Department, Board of Education, *St David's Day* ([Caerdydd] 1915). Canfyddid ôl Edwards yn 'Notes of the Month', *Welsh Outlook*, 2, 2 (Chwefror 1915), 43–6 (t. 43).

60 Chris Williams, *Icons of Wales / Eiconau Cymru* (Milton Keynes, 2012).

61 E.e., *Aberdare Leader*, 6 Mawrth 1915; *Brecon County Times, Neath Gazette and General Advertiser*, 4 Mawrth 1915; *Denbighshire Free Press*, 6 Mawrth 1915.

62 Stefan Goebel, *The Great War and Medieval Memory: War, Remembrance and Medievalism in Britain and Germany, 1914–1940* (Caergrawnt, 2007), tt. 86, 226.

63 Robert Gildea, *The Past in French History* (New Haven a Llundain, 1994), tt. 161–5; Jennifer Kilgore, 'Joan of Arc as Propaganda Motif from the Dreyfus Affair to the Second World War', *Revue Lisa*, 6, 1 (2008); cyhoeddiad ar-lein 16 Mehefin 2009 <<http://lisa.revues.org/519>> [cyrchwyd 18 Awst 2015]; Goebel, *Great War*, tt. 181–2.

64 *Ibid.*, tt. 124–45.

yn erbyn yr Almaen a'i chynghreiriaid. Eto, faint o wahaniaeth ydoedd mewn gwirionedd, o gofio mai apelio at un o'u harwyr cenedlaethol canoloesol a wnaed yn achos y Cymry hefyd? Yn sicr ni theimlai Cymry blaenllaw ar y pryd fod yna unrhyw anghysondeb. I'r gwrthwyneb: recriwtiwyd Glyndŵr a'i wladgarwch Cymreig i'r frwydr newydd. Mae'n wir nad peth cwbl newydd oedd cysylltu'r tywysog â thraddodiad milwrol modern y Cymry: ym Mhasiant Cenedlaethol Cymru, a sriptiwyd gan Owen Rhoscomyl a'i lwyfannu yng Nghaerdydd yn haf 1909, chwaraewyd Glyndŵr gan ail Farwn Tredegyr (1831–1913), a oedd wedi amlygu ei hun yn Rhyfel y Crimea.<sup>65</sup> Eto, dyma'r tro cyntaf, mae'n debyg, i Lyndŵr, ynghyd ag arwyr Cymreig eraill yr oesoedd canol, gael ei ddefnyddio er mwyn perswadio Cymry i ymrestru yn y rhengoedd. Ac nid drwy wadu neu wanhanu hunaniaeth Gymreig y tywysog y gwnaed hyn chwaith: yn ôl y llyfryn ar gyfer Gŵyl Ddewi, Glyndŵr oedd 'y Cymro mwyaf a fu byw, un a dreuliodd ei fywyd i amddiffyn anrhydedd a rhyddid Cymru'.<sup>66</sup> Dathlwyd ei wrhydri a'i sêl i ryddhau ei bobl rhag iau y Saeson gormesol, gan gyffelybu ei ymdrech i frwydr y presennol i achub cenhedloedd bach, sef Gwlad Belg a Serbia, rhag gormes militaraid y Kaiser.<sup>67</sup> Dyna thema yr oedd Lloyd George yntau wedi ei phwysleisio ar ddechrau'r rhyfel, yn ei araith enwog i Gymry Llundain ar gyfraniad cenhedloedd bychain i'r byd, araith a alwodd am greu byddin Gymreig a fyddai'n driw i draddodiad milwrol anrhydeddus yr oesoedd canol, gan gynnwys Glyndŵr.<sup>68</sup> Yn yr un modd, clywn fod cadeirydd cyfarfod llenyddol yng Ngharmel, pentrefyn yn ucheldir Sir Ddinbych, wedi cwyno am bresenoldeb 'haner cant o ddynion ieuainc cryf a nerthol, yn ngwythiennau y cyfryw y dylasai fod gwaed Glyndŵr yn berwi', a'u hannog i ymrestru'n syth yn y fyddin: 'Byddwch ddynion! I'r gad, i'r gad!'<sup>69</sup> I sylwebyddion o'r fath, roedd dewrder milwrol Glyndŵr a'i ddilynwyr yn anogaeth i'r Cymry ymladd yn ddewr dros eu gwlad.

Ac wrth gwrs dyna'r pwynt allweddol: cymerwyd yn ganiataol y gellid harneisio gwladgarwch Cymreig i anghenion milwrol Prydain – bod gwladgarwch Cymreig yn rhan annatod o wladgarwch Prydeinig. Nid dyma'r lle i olrhain gwreiddiau dwfn a chymhleth ymwybod y Cymry ag Ynys Brydain.<sup>70</sup> Yr hyn sy'n werth ei nodi, fodd bynnag, yw bod y gwladgarwch Cymreig a gynrychiolai Glyndŵr yn cael ei weld yn gwbl gyson â gweledigaeth Rhyddfrydwyr ddechrau'r ugeinfed

65 Hywel Teifi Edwards, *The National Pageant of Wales* (Llandysul, 2009), tt. 141–5. Ymddengys hefyd fod catrawd y Royal Welch Fusiliers yn uniaethu ei hun â Glyndŵr a Harri Tudur: John S. Ellis, 'A Pacific People – A Martial Race: Pacifism, Militarism and Welsh National Identity', yn Matthew Cragoe a Chris Williams (gol.), *Wales and War: Society, Politics and Religion in the Nineteenth and Twentieth Centuries* (Caerdydd, 2007), tt. 15–37 (tt. 18–19).

66 *Dydd Gŵyl Dewi*, t. [5].

67 'Owain Glyndwr Serbia', *Y Genedl Gymreig*, 16 Tachwedd 1915.

68 D. Lloyd George, 'Dyled y Byd i Genhedloedd Bychain', yn J. Morris Jones (gol.), *Gwlad fy Nhadau: Rhodd Cymru i'w Byddin* (Llundain [1915]), tt. 124–5. Gw. hefyd [O. M. Edwards], 'Dydd y Cenhedloedd Bychain', *Cymru*, 47 (Tachwedd 1914), 201–5 (t. 205), a'r drafodaeth yn Henken, *National Redeemer*, t. 178.

69 'Galwad i'r Gad gan Gymro', *Y Dydd*, 9 Ebrill 1915; hefyd *Carmarthen Weekly Reporter*, 9 Ebrill 1915.

70 Gw., e.e., Dafydd Glyn Jones, *Agoriad yr Oes: Erthyglau ar Lèn, Hanes a Gwleidyddiaeth Cymru* (Llandysul, 2001), Pen. 1, 3, 4.

ganrif o'r Ymerodraeth Brydeinig fel teulu o genhedloedd.<sup>71</sup> Ni cheisiwyd honni bod Glyndŵr ei hun yn wladgarwr Prydeinig (er iddo gael ei ddisgrifio fel ffigur yn hanes Prydain).<sup>72</sup> Serch hynny, gellid ei ddefnyddio i hyrwyddo gwladgarwch Prydeinig, fel yr oedd Beriah Gwynfe Evans eisoes wedi dangos yn ei ddrama gomisiwn ar gyfer arwisgiad 1911 yng nghastell Caernarfon, a gyflwynai'r arwr yn edrych ymlaen i gytgord rhwng y Cymry a'r Saeson ar ôl ei goroni'n Dywysog Cymru ar ddiwedd y ddrama.<sup>73</sup> Er bod y pwyslais yn wahanol, yr un yw'r rhagdybiaeth sy'n cynnal yr apêl at Lyndŵr adeg y Rhyfel Byd Cyntaf. Do, gwnaed rhinwedd o'i frwydr ddigymrodedd yn erbyn brenin Lloegr drwy ei gosod fel esiampl o ddewrder a gwladgarwch y dylai'r Cymry ei dilyn yn eu sefyllfa bresennol. Ond nid oedd amheuaeth nad y Kaiser oedd y gelyn bellach, a bod angen i'r Cymry ymladd yn ei erbyn ochr yn ochr â'r Saeson a phobloedd eraill yr Ymerodraeth Brydeinig. Gwnaed apêl debyg i'r Gwyddelod: byddent yn bradychu eu hanes o ormes gan eu cymydog Tiwtonaidd pe baent yn gwrthod cefnogi brwydr cenhedloedd bach Ewrop dros ryddid.<sup>74</sup> Afraid dweud mai golwg digon anghyflawn ar hanes a gynhaliat ddeongliadau o'r fath. Llwyddai un awdur, er enghraifft, i gymharu rhyfel Glyndŵr yn erbyn Harri IV, 'Caisar yr oes honno i Gymru,' â gwrthasfiad gwlad fach fynddigr arall, sef Serbia, yn erbyn yr Almaen heb gydnabod bod y Cymry wedi colli: i'r gwrthwyneb, wrth bwysleisio methiant y Saeson i ddal Glyndŵr awgrymwyd ei fod yn drech na brenin Lloegr.<sup>75</sup>

Ar yr un pryd, nodwyd sut yr oedd Cymru bellach wedi gwireddu nifer o freuddwydion Glyndŵr. Mewn geiriau sy'n dangos ôl meddwl O. M. Edwards, meddai'r llyfr yn ar gyfer Gŵyl Ddewi: 'Byddin Owen Glyndŵr ydym ninnau heddyw, yn ennill ei frwydr. Y mae'n cenedl yn eglwys i Grist, a'i chrefydd yn gref a phur. Y mae addysg yng nghyrraedd y tlotaf. Y mae'r llafurwr yn graddol ennill ffirwyth cyfiawn ei lafur; y mae llafur yn anrhydeddus. Y mae'n gwlad anwyl yn rhydd, ac yn deyrngar i'r ymerodraeth rymus a gogoneddus y mae'n rhan hynaf ohoni.'<sup>76</sup> Pwysleisiai nifer o sylwebyddion fod rhaglen addysgol Glyndŵr wedi ei gwireddu drwy sefydlu Prifysgol Cymru a'i cholegau. Yn eu plith oedd Mr J. Emrys Williams, a fyynnodd, wrth annerch Cymdeithas Pobl Ieuainc Nazareth, Pontlotyn, fod gobaith gweld gwireddu rhagor o amcanion y tywysog, diolch i'r mesur seneddol dros ddadsefydlu'r Eglwys yng Nghymru a basiwyd y flwyddyn gynt ac ymdrechion E. T. John, Aelod Seneddol Rhyddfrydol Dwyrain Sir Ddinbych, i sicrhau ymreolaeth i Gymru ar drothwy'r rhyfel.<sup>77</sup>

Os anelu at bobl ifanc a wnâi nifer o'r gweithgareddau coffhaol yn 1915, yn arbennig wrth gwrs y dathliadau Gŵyl Ddewi yn yr ysgolion a ddilynai ofynion

71 John S. Ellis, "The Methods of Barbarism" and the "Rights of Small Nations": War Propaganda and British Pluralism', *Albion*, 30, 1 (1998), 49–75 (tt. 62–71). Am y syniadaeth hon, gw. [O. M. Edwards], 'Y Genedl a'r Ymherodraeth', *Cymru*, 48, 284 (Mawrth 1915), 153–4; Welsh Department, Board of Education, *Patriotism* (Llundain, 1916), tt. 7–8.

72 *Herald of Wales*, 18 Rhagfyr 1915.

73 James, *Glyndŵr a Gobaith y Genedl*, tt. 60–7.

74 Ellis, "The Methods of Barbarism", 71–3.

75 'Owain Glyndwr Serbia'; gw. hefyd 'Cyflwr Serbia Eto', *Y Genedl Gymreig*, 30 Tachwedd 1915.

76 *Dydd Gŵyl Dewi*, t. [8].

77 *Y Tyst*, 24 Chwefror 1915. Ar y cefndir gwleidyddol, gw. Kenneth O. Morgan, *Wales in British Politics 1868–1922* (arg. clawr papur, Caerdydd, 1991), tt. 255–9, 263–73.

swyddogol Adran Gymreig y Bwrdd Addysg, nid dyna'r cwbl a wnaed o bell ffordd, gan fod y pumcanmlwyddiant wedi denu sylw pur eang mewn amryw o gyfarfodydd a chyhoeddiadau. Does dim syndod bod yma eto gryn bwyslais ar dynnu cymhariaeth rhwng rhyfel Glyndŵr a'r sefyllfa gyfoes yn Ewrop. A dyfynnu *Baner ac Amserau Cymru*, mewn erthygl faith yn cloriannu campau ac arwyddocâd y tywysog a gyhoeddwyd ar drothwy Gŵyl Ddewi, 'Cyfrwng oedd rhyfel iddo ef i gyrraedd amcanion anrhydeddus fel ag y mae'r rhyfel presennol yn gyfrwng i roi pen (gobeithio) ar filwriaeth ac annuwiaeth cenedloedd.'<sup>78</sup> Awgrymodd L. J. Roberts fod tebygrwydd rhwng y Cymry o bob stâd a dyrrodd i ymuno â'r tywysog a'r dynion o gefndiroedd gwahanol a ymrestrodd yn lluoedd arfog Prydain yn erbyn yr Almaen, y bu Lloyd George mor falch o weld rhai ohonynt yn Llandudno yn Chwefror 1915.<sup>79</sup> Ac ym mis Rhagfyr, agorodd adroddiad un papur newydd ar ddarlith yr hanesydd J. Conway Davies ar y tywysog drwy sylwi mor amserol ydoedd, ar adeg pan oedd pobl Prydain yn cael ei haddysgu i edrych ar gampau milwrol mewn goleuni newydd, i glywed am 'weithredoedd gogoneddus y strategydd milwrol mwyaf y mae Cymru wedi ei gynhyrchu erioed'.<sup>80</sup>

Nid y llyfryn ar gyfer dathlu Gŵyl Ddewi yn yr ysgolion oedd yr unig gyhoeddiad chwaith i droi'r coffa am Lyndŵr yn optimistiaeth hunanfodddhaol am ddyfodol Cymru. Yn ogystal ag ymfalchïo bod un o freuddwydion y tywysog wedi ei wireddu wrth sefydlu Prifysgol Cymru a'i cholegau, mae'r erthygl y cyfeiriais ati ym *Maner ac Amserau Cymru* yn mynnu bod ei gymwynas â'i genedl yn llawer mwy eang ac arhosol na hynny: dioleh i '[I]afur ac egnion Glyndŵr [...] onid yw Cymru ar ei ffordd i ryddid, a rhai o'i chadwyni yn syrthio ymaith?'<sup>81</sup> Ceisiwyd hefyd gyplysu gwroldeb Glyndŵr â'r Anghydfurfiaeth a wnaeth gymaint i greu'r Gymru fodern, megis yn hanes milwr ifanc o Gorwen a oedd, meddid, wedi efelychu dewrder Glyndŵr a thywysogion canoloesol eraill ei fro drwy ddyfalbarhau i ddarllen ei Feibl mewn gwerysll milwrol er gwaethaf gwawd ac erlid ei gyd-filwyr annuwiol.<sup>82</sup>

Drwy droi'r cof am ddewrder milwrol Glyndŵr i gyfeiriad annisgwyl gellir dadlau bod yr hanes olaf hwn yn dadlennu rhai tensiynau rhwng y gwahanol ddelfrydau cyfoes a gysylltwyd â'r arwr cenedlaethol hwn. Yn sicr, gorsymleiddio fyddai awgrymu mai dim ond eicon i'w ddyrchafu er mwyn cyfiawnhau'r rhyfel oedd y Glyndŵr a gofiwyd yn 1915. Ar un llaw, gresynai rhai fod y llyfryn Gŵyl Ddewi wedi rhoi cymaint o bwyslais ar arweinwyr milwrol, a heb goffâu canmlwyddiant geni Thomas Gee, y gellid ei ystyried yn Gymro mwyaf dylanwadol ei ddydd.<sup>83</sup> Ar y llaw arall, adlewyrchai llawer o'r sylw a roddwyd i Lyndŵr y diddordeb mawr a fodolai eisoes yn y tywysog, diddordeb a amlygwyd, er enghraifft, mewn cwynion ei bod yn gywilydd na chodwyd, chwedl un sylwebydd, 'cofgolofn i'r mawrddyn annwyl hwn'.<sup>84</sup> Wrth gwrs, dichon bod y gweithgareddau i nodi ei

78 'Owen Glyndwr. 1415–1915', *Baner ac Amserau Cymru*, 27 Chwefror 1915.

79 L. J. Roberts, *Owen Glyndwr: Darlith* (Wrecsam, 1915), tt. 17–18, 59–60.

80 *Herald of Wales*, 18 Rhagfyr 1915.

81 'Owen Glyndwr. 1415–1915'.

82 *Yr Adsain*, 7 Rhagfyr 1915; *Baner ac Amserau Cymru*, 18 Rhagfyr 1915.

83 'Notes of the Month', *Welsh Outlook*, Mawrth 1915, 83–9 (t. 84).

84 'Owen Glyndwr. 1415–1915'. Gw. hefyd, e.e., *Y Darian*, 20 Mai 1915; *Amman Valley Chronicle*, 9 Rhagfyr 1915.

bumcanmlwyddiant wedi cynyddu'r galw i glywed rhagor am wron pennaf Cymru; ond prin y buasai'r gweithgareddau wedi digwydd o gwbl oni bai bod y galw'n bodoli'n barod.<sup>85</sup> Bid a fo am hynny, traddodwyd llawer o sgyrisiau am Lyndŵr ar hyd a lled y wlad, a'u hadrodd wedyn yn y wasg. Weithiau achubwyd ar y cyfle i ailgoriannu ei arwyddocâd. Enghraifft dda yw'r ddarlith gan Conway Davies a grybwyllais i gynnu, a bwysleisiodd gamp y tywysog yn sefydlu system weinyddol fodern, ar batrwm Ewropeaidd, yng nghanol bwrlwm rhyfel – dehongliad oedd yn ddyledus, mae'n debyg, i'r weledigaeth a gyflwynodd y tywysog yn y llythyr enwog a yrrodd o Bennal at y Brenin Siarl VI o Ffrainc ar ddiwedd Mawrth 1406, llythyr oedd yn llawer mwy hygyrch ers ei gyhoeddi, gyda chyfieithiad Saesneg, gan Tom Matthews yn 1910.<sup>86</sup>

Daliai'r tywysog i ysbrydoli ffuglen hefyd, megis y rhamant *Y Golomen Deg* gan y Parch. G. Bedford Roberts, a adroddai hanes Siân, merch Owain Glyndŵr, hyd at ei phriodas ag Edmund Mortimer. Yn ei ragair i'r gwaith cyfeiriodd ei gyhoeddwr O. M. Edwards ato fel 'teyrnged y nofelydd [...] i'n harwr cenedlaethol', ac mewn cydnabyddiaeth brin yn 1915 o ran merched yn hanes Glyndŵr, aeth rhagddo i ganmol dewrder Siân ac i nodi bod 'llawer o ferched arwrol yn hanes Cymru, yn disgwyl am yr hanesydd a'r nofelydd'.<sup>87</sup> Os nad oedd dychmygu Glyndŵr yn ddigon, gellid ei weld drwy fynychu drama'n dwyn ei enw gan Pedr Hir (Y Parchedig Peter Williams, Bootle, 1847–1922), yr oedd ei gyfarwyddiadau manwl ar sut i'w llwyfannu gyda hygredd hanesyddol yn cynnwys y gwaharddiad, 'Na wisger *Welsh hats*'!<sup>88</sup> Cyhoeddwyd llu o gerddi am y tywysog yn ogystal. Mae nifer o'r rhain yn troi at Lyndŵr, weithiau gydag arwyr eraill Cymru'r oesoedd canol, am ysbrydoliaeth wrth gyhoeddi'r angen i fynd i ryfel yn Ewrop, gan awgrymu bod y gyffelybiaeth rhwng y digwyddiadau cyfoes a'r gwrthryfel yng Nghymru bum canrif ynghynt wedi ei rhannu'n bur eang. Enghraifft dda yw'r pennill hwn o gerdd a gyhoeddwyd o dan y ffugenw 'Alfa':

Fe gefaist di dy lethu,  
Fy ngwlad, unwaith yn fawr,  
A chest dy erchyll waedu  
Fel Belgium fach yn awr;  
O! cyfod, wlad y delyn,  
Am dro yn wlad y cledd,  
Clyw Glyndwr a Llewelyn  
Yn galw'n glir o'u bedd!<sup>89</sup>

85 Mae'n debyg mai'r cof amdano'n archelyn i Lyndŵr sy'n egluro pam na cheisiwyd dyrchafu Dafydd Gam yn esiampl arwrol, er iddo farw ym mrydyr Agincourt (1415) yng ngwasanaeth y Goron: cymh. Davies, *Revolt*, tt. 225–7.

86 *Cambrian Daily Leader*, 13 Rhagfyr 1915; *Herald of Wales*, 18 Rhagfyr 1915; *South Wales Weekly Post*, 18 Rhagfyr 1915; Matthews, *Welsh Records*.

87 Owen M. Edwards, 'Cyflwyniad', yn G. Bedford Roberts, *Y Golomen Deg: Rhamant i Ddarlunio Bywyd Cymru yn Amser Owen Glyndwr* (Caernarfon, 1915), t. [3]. Cyhoeddwyd y rhamant gyntaf yn *Cymru*, Awst–Rhagfyr 1914.

88 Pedr Hir, *Owain Glyndŵr: Drama* (Lerpwl, 1915); dyfyniad ar d. 6.

89 'Alfa', 'Gymru! I'r Gad!', *Y Darian*, 19 Awst 1915.



Cawn ddarlun hanesyddol mwy uchelgeisiol, er cwbl confensiynol yn ei blethiad o arwriaeth ganoloesol, diwylliant Anghydfurfiol a theynrgarwch i'r goron, yn 'Rhyfelgyrch Meibion Gwalia', cerdd gan Agnes Livingstone sy'n enwi 'Glyndwr a'i wronaidd fyddin' yn yr un gwynt bron â'n 'brenin gwrol, / Wyr ein Buddug fwyn urddasol', ac yn mawrygu Cymru fel 'Gwlad y Beibl, gwlad diwygiadau'.<sup>90</sup> Ar y llaw arall, gwell gan E. J. Herbert fel min mwy cenedlaetholgar ar y gefnogaeth i'r rhyfel drwy osod Glyndŵr – 'Fynnodd fuddugoliaeth ar yr estron cas!' – yng nghwmni'r beirdd Fictoraidd Mynyddog a Cheiriog ac eilunod y Gymru Ryddfrydol fodern, Tom Ellis a Lloyd George (er na fu iddo fynd mor bell â'r Cymro Americanaidd a ddywedodd am Gymru 1914 mai ei 'Glyndwr yw David Lloyd George!').<sup>91</sup>

Wrth ddirwyn y drafodaeth hon i ben carwn droi yn ôl at y coffáu a welwyd adeg chwechanmlwyddiant cychwyn gwrthryfel Glyndŵr yn y flwyddyn 2000. Os oedd ambell un yn 1915 yn disgwyl gweld sefydlu senedd Gymreig a fyddai'n cyflawni un o amcanion Glyndŵr, erbyn 2000 daethpwyd yn llawer nes at wireddu'r amcan honno yn sgil dyfodiad Cynulliad Cenedlaethol i Gymru, y tro cyntaf i gorff o'r fath gael ei greu ers y seneddau a gynhaliai Glyndŵr ar ddechrau'r bymthegfed ganrif. Ymwybyddiaeth o'r cysylltiad hanesyddol hwynnw a ysgogodd yr Aelod Seneddol Paul Flynn i gyflwyno cynnig yn Nhŷ'r Cyffredin yn gyfyn 'am ddychwelyd arteffactau'r Senedd Gymreig flaenorol i Gymru [. . .] [sef] Llythyr Pennal a Sêl Owain Glyndŵr a yrrwyd i Ffrainc yn 1406 [. . .] a'u harddangos a'u hanrhydeddu yng Nghymru fel dolenni gwirioneddol rhwng Senedd 1404 a'r Cynulliad heddiw'.<sup>92</sup> Teg dweud mai dychweliad llythyr Pennal o'i gartref ym Mharis i'w arddangos dros dro yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, lle denodd tua 70,000 o ymwelwyr, oedd gweithred symbolaidd bwysicaf y coffa am Lyndŵr yn 2000.<sup>93</sup> Nid oes syndod, felly, mai Glyndŵr y gwladweinydd a'r gweledydd a apeliai fwyaf at wleidyddion yr adeg honno, yn hytrach na'r rhyfelwr dros ryddid a ddyrchafodd Lloyd George. Er enghraifft, fel rhan o ymdrechion ehangach y Blaid Lafur yng Nghymru i arddel hunaniaeth Gymreig yng nghyd-destun newydd datganoli, dadleuai Prif Weinidog Cymru, Rhodri Morgan, fod llythyr Pennal yn cynnig gweledigaeth berthnasol o Gymru fel cenedl Ewropeaidd nad oedd wedi ei chlymu wrth Loegr yn unig.<sup>94</sup>

90 Agnes Livingstone, 'Rhyfelgyrch Meibion Gwalia', *Baner ac Amserau Cymru*, 10 Gorffennaf 1915. Gw. hefyd Gerwyn Williams, *Y Rhwyg: Arolwg o Farddoniaeth Gymraeg ynghylch y Rhyfel Byd Cyntaf* (Llandysul, 1993), tt. 19, 58.

91 E. J. Herbert, 'Dydd Gŵyl Dewi Sant', *Carmarthen Journal and South Wales Weekly Advertiser*, 19 Mawrth 1915; 'Dewi Sant', 'Llywelyn, Dafydd a Glyndwr', *Y Drych*, 23 Gorffennaf 1914. Fi biau'r italeiddio.

92 Early Day Motion 572: 'Return to Wales of the Artefacts of Owain Glyndwr', 21.04.1999 <<http://www.parliament.uk/edm/1998-99/572>> [cyrchwyd 15 Gorffennaf 2015]. Er nad oes modd profi cysylltiad uniongyrchol rhwng yr 'artefactau' a enwir a seneddau Glyndŵr, mae'r ymgais hon i gyhoeddi cynsal hanesyddol i'r Cynulliad Cenedlaethol yn enghraifft drawiadol o ddefnyddio'r ymwybyddiaeth fodern o arwyddocâd y tywysog at ddibenion cyfoes.

93 'Nodiadau Golygyddol', *Taliesin*, 110 (Gaeaf 2000), 5–7 (t. 5).

94 John Osmond, 'A Constitutional Convention by Other Means: The First Year of the National Assembly for Wales', yn Robert Hazell (gol.), *The State and the Nations: The First Year of Devolution in the United Kingdom* (Thorverton, 2000), tt. 37–77 (tt. 40–1).

Dyna yn ei dro ein hatgoffa unwaith yn rhagor fod y Glyndŵr a orosodd yn y cof yn ffigur amlweddol y bydd pob oes yn ei ddehongli yng ngoleuni ei hamgylchiadau ei hun. Mae hynny yr un mor wir am haneswyr ag am wleidyddion wrth gwrs. Trafodaeth barhaus rhwng y presennol a'r gorffennol yw hanes wedi'r cwbl. Ond drwy fod yn ymwybodol o hyn, daw cyfle i'r hanesydd godi cwestiynau newydd. I rai, eicon neu eilun cenedlaethol i'w atgyfodi o hyd yw Glyndŵr. Gwell gennyf i ei weld yn anogaeth i fynd i'r afael â'n hanes. Ar un olwg mae'r rhagolygon ar gyfer hynny yn ffafriol: mae hanes Cymru'n ennyn llawer o ddiddordeb ymhlith y cyhoedd ac yn destun corff sylweddol o waith academiaidd. Serch hynny, wyneba sawl her. Cyfyngir ar y cyfleoedd i'w ddysgu yn y prifysgolion ac i gyhoeddi llyfrau ysgolheigaidd arno gan doriadau cyllidol ac ideoleg y farchnad.<sup>95</sup> Ac yn rhannol gysylltiedig â hynny, mae'r pwyslais cynyddol ar hanes cymharol a bydeang wedi arwain rhai i ddadlau nad oes diben mwyach i un o sylfeini deallusol yr astudiaeth o hanes Cymru, sef y cysyniad o hanes cenedlaethol.<sup>96</sup> Nid dyma'r lle i drafod sut i ymateb i'r heriau hyn. Ond priodol yw gorffen drwy awgrymu bod gyrfa hirhoedlog Glyndŵr, o'i oes ei hun hyd ein dyddiau ni, yn un o 'fannau'r cof' fydd yn haeddu sylw beirniadol yn yr ymdrech barhaus i ddeall hanes a hunaniaeth Cymru.<sup>97</sup>

95 Am bryderon tebyg, gw. M. Wynn Thomas, 'Scholars of Wales Stare Disaster in the Face', *Click on Wales*, 24 Mawrth 2014 <<http://www.clickonwales.org/2014/03/scholars-of-wales-stare-disaster-in-the-face>> [cyrchwyd 15 Awst 2015].

96 Am arolwg diweddar o gryfderau a pheryglon hanes cenedlaethol, a'i ragolygon at y dyfodol, gw. Stefan Berger gyda Christopher Conrad, *The Past as History: National Identity and Historical Consciousness in Modern Europe* (Basingstoke, 2015), tt. 373–9.

97 Hoffwn ddiolch yn fawr i'r Athro Gruffydd Aled Williams am fwrw golwg dros yr erthygl hon ac am awgrymu nifer o welliannau.